

# Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Cwmaman, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 06 Tachwedd 2024

Dyddiad cyhoeddi: 06 Chwefror 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom.....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	11
	• Ansawdd Profiad y Claf.....	11
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	22
4.	Y camau nesaf .....	27
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	28
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	29
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	34

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Cwmaman, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar 06 Tachwedd 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd un gan aelod o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd canfyddiadau ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a dywedodd pob un ohonynt fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'u gofalwyr mewn modd cwrtais a chadarnhaol.

Roedd prosesau ar waith a oedd yn galluogi'r cleifion i gael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Roedd y practis yn sicrhau bod cleifion agored i niwed yn cael gofal amserol. Mae'n cadw rhestrau o gleifion y mae'n eu ffonio er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau penodol i ddiwallu eu hanghenion.

Roedd mynediad da i'r safle a oedd yn galluogi cleifion â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn i ddefnyddio'r cyfleusterau yn hawdd. Roedd yr ystafell aros i gleifion yn lân ac yn fawr, ac roedd ystafelloedd ar wahân ar gael ar gyfer trafodaethau preifat.

Dylai'r practis wella'r gwasanaeth hebryngwr a gynigir, drwy arddangos mwy o hysbysiadau yn ei ardaloedd trin clinigol a rhannu gwybodaeth ar y wefan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis arddangos hysbysiadau mewn perthynas â'r gwasanaeth hebryngwr. Dylai'r rhain gael eu harddangos ym mhob ardal i gleifion, gan gynnwys yr ardaloedd trin clinigol ac ar y wefan.
- Rhaid i'r practis sicrhau bod proses wedi'i dogfennu ar gyfer llywio gofal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mynediad da i gleifion
- Roedd yr ardal aros yn ddymunol ac yn cynnwys llawer o wybodaeth i gleifion
- Sicrhau bod y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael gwasanaeth da.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn dderbyniol ar y cyfan, ond mae angen gwella rhai meysydd er mwyn cyrraedd y safonau gofynnol yn gyson a

sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Er bod y staff wedi dweud bod y timau clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau, nid oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau hyn.

Caiff cofrestr o imiwnedd staff clinigol i hepatitis B ei chynnal, ond gwelwyd nad oedd yn cynnwys manylion ar gyfer dau aelod o'r staff.

Roedd prosesau ar gyfer rhagnodi meddyginiaeth yn ddiogel ar waith, ond mae angen gwneud gwelliannau. Roedd presgripsiynau yn cael eu storio'n ddiogel, ond nid oedd unrhyw gofnod i ddangos eu bod wedi cael eu dosbarthu.

Edrychwyd ar y cyfarpar brys a gwelsom fod dyddiadau defnyddio rhai o'r eitemau bron â mynd heibio, a bod angen masgiau ocsigen newydd. Roedd diffibriliwr ar gael ac wedi ei wefru, ond argymhellir y dylid prynu batri wrth gefn. Cafodd cyffuriau brys a oedd ar goll eu harchebu ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Ymdriniwyd â'r materion yn ymwneud â'r cyfarpar brys drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

Mae angen diweddarau'r gweithdrefnau diogelu yn y practis i adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth i Gymru. Roedd dryswch ymysg y staff o ran pwy oedd yr arweinydd diogelu, ac nid oedd y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y polisi chwaith. Mae angen gwneud gwelliannau hefyd mewn perthynas â hyfforddiant ar ddiogelwch.

Wrth edrych ar gofnodion electronig deg claf, gwelsom eu bod yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu â chyfrinair, a'u bod yn cynnwys cofnodion clir a chyfredol. Fodd bynnag, roedd materion yn ymwneud â'r defnydd o godau darllen clinigol, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd olrhain cyflyrau. Roedd y system cofnodion cleifion yn ei gwneud hi'n anodd cysylltu meddyginiaethau â diagnosisu ac i olrhain pryd y dechreuwyd meddyginiaethau a phryd y rhoddwyd y gorau iddynt, ynghyd â'r rhesymeg dros hynny.

Mae'r practis yn rheoli gwasanaethau'n effeithlon mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan rymuso'r cleifion ar eu taith gofal iechyd. Gall atgyfeirio cleifion at ymwelwyr iechyd, ffisiotherapyddion, gwasanaethau iechyd meddwl, a thîm llesiant y clwstwr.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd dyddiadau defnyddio eitemau o gyfarpar brys a meddyginiaeth wedi mynd heibio neu roedd angen rhai newydd yn eu lle
- Cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar ddiogelu, cysondeb y polisi diogelu â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a gwybodaeth y staff am arweinydd diogelu'r practis.

Caiff manylion am y gwelliannau a'r camau unioni gofynnol eu nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cydymffurfio â phob agwedd ar hyfforddiant gorfodol
- Sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu canllawiau a rheoliadau Cymru
- Sicrhau bod rhesymau yn cael eu dogfennu ar nodiadau cleifion pan roddir gorau i ddefnyddio meddyginiaeth

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydweithio da rhwng y practis a'r clwstwr lleol o feddygfeydd
- Roedd gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd effeithlon a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau bod y bobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd
- Roedd gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff, gan gynnwys gwastraff gofal iechyd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y tîm rheoli yn cefnogi grŵp o staff ymrwymedig ac ymroddedig, yr oedd pob un ohonynt yn gweithio er lles pennaf eu cleifion. Mae pob aelod o'r staff yn gweithio ar draws dwy feddygfa cangen ac yn cyflenwi yn ystod absenoldebau, a nodwyd heriau o ran cadw staff. Roedd hyn yn effeithio ar allu uwch-aelodau o'r staff i gymryd gwyliau.

Roedd prosesau sefydledig ar waith yn y practis i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd, er mwyn helpu i barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae'r staff yn glir ynghylch eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd, ac maent yn deall pwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd prosesau rhannu gwybodaeth ar waith ar gyfer y staff ac roedd polisiau a gweithdrefnau ar gael i'w darllen ar yriant a rennir. Roedd diweddariadau'n cael eu rhannu ar lafar neu drwy WhatsApp. Caiff cyfarfodydd staff eu cynnal fel mater o drefn, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd clinigol, a all olygu nad yw rhai aelodau o'r staff yn ymwybodol o wybodaeth allweddol a chamau gweithredu gofynnol.

Mae prosesau recriwtio yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi fel gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon, a dilysu cofrestriadau proffesiynol. Fodd bynnag, mae angen diweddarau'r polisi recriwtio i nodi bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn orfodol. At hynny, nid oedd rhai gwiriadau cyn



cyflogi wedi'u cwblhau, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

Dangosodd arolwg o Brofiad Cleifion y GIG ganlyniadau cadarnhaol yn bennaf, ond nid oedd yr adborth ar gael i'r cleifion. Dylid rhoi system adborth leol ar waith er mwyn galluogi'r cleifion i awgrymu gwelliannau i'r gwasanaeth yn barhaus.

Roedd proses gwyno ar waith ond nid oedd yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella y GIG, ac mae angen diweddarau'r broses gwyno hefyd er mwyn sicrhau cysondeb o ran amseroedd ymateb.

Roedd y practis yn dangos ei rôl fel rhanddeiliaid yng ngofal y cleifion drwy ddilyn llwybrau clinigol y bwrdd iechyd ac ymgysylltu â phartneriaid system drwy gyfarfodydd aml-ddisgyblaethol, fel cyfarfodydd clwstwr a chyfarfodydd rheolwyr practisau. Roedd ganddo gydberthnasau cydweithredol da â phartneriaid allanol ac o fewn y clwstwr lleol o feddygfeydd. Roedd y cydweithio hwn yn helpu i feithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion lleol, gan hwyluso'r broses o integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer yr ardal ehangach.

Gwnaethom gyhoeddi llythyr sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â'r broses recriwtio, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hyfforddiant ar ddiogelu.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff.

Caiff manylion am y gwelliannau a'r camau unioni gofynnol eu nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â gofynion hyfforddiant gorfodol, a rhoi matrices hyfforddiant ar waith i fonitro cydymffurfiaeth
- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u bod yn benodol i'r practis, a'u bod hefyd yn cynnwys dull rheoli fersiynau.
- Sicrhau bod pob cyfarfod yn cael ei gofnodi a, lle y bo'n briodol, rhoi dull o gofnodi camau gweithredu ar waith er mwyn monitro eu cynnydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydweithio da rhwng y practis a'r clwstwr lleol o feddygfeydd
- Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn serchog â'r cleifion a gyda'i gilydd
- Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel.



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal a ddarperir ym meddygfa Cwmaman. Cawsom 10 ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 10 ymateb i bob cwestiwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Staff caredig a gofalgar. Apwyntiad awtomatig gyda neges atgoffa yn hytrach na gorfod trefnu apwyntiad"*

#### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

##### Hybu iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros i gleifion ac yn cael ei hyrwyddo drwy wefan y practis. Gwelsom wybodaeth hybu iechyd am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, rheoli pwysau a gwybodaeth i ofalwyr. Nid oedd y sgrin wybodaeth yn yr ystafell aros ymlaen yn ystod yr ymweliad. Roedd pawb a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis, ond dim ond dau oedd yn teimlo eu bod wedi cael cynnig cyngor ar ffordd o fyw iach.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â nifer o asiantaethau er mwyn gwella mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol. Mae fferylllydd a chwnselydd iechyd meddwl yn ymweld â'r practis bob wythnos. Gall y cleifion gael gwasanaethau ffisiotherapi mewn practis arall ac mae gan y practis gysylltiadau da â'r tîm llesiant cymunedol a'r tîm iechyd meddwl mewn argyfwng. Mae hyn yn galluogi'r cleifion i gael help a chymorth gan asiantaethau eraill mewn modd mwy amserol.

Mae staff y practis yn gweithio'n agos gyda'u grŵp cleifion i sicrhau eu bod yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir. Er mwyn gwneud yn siŵr bod cleifion agored i niwed yn cael gofal amserol, mae'r practis yn cadw rhestrau o gleifion y mae'n eu ffonio er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau penodol i ddiwallu

eu hanghenion. Mae'r practis hefyd yn defnyddio rhybuddion ar gofnodion y cleifion fel bod modd nodi'r rhai y mae angen gwasanaethau ychwanegol arnynt yn hawdd.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod y staff yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu cwestiynau. Roeddent hefyd yn teimlo bod y staff yn gwrandao arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Roedd gwaith paratoi'r practis i reoli rhaglen frechu flynyddol y gaeaf yn addas ac roedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'r tŷ, yn agored i niwed a phreswylwyr cartrefi gofal.

### **Gofal urddasol a pharchus**

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd, ac roedd y drysau'n cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynoriadau. Roedd llenni preifatrwydd hefyd ar gael. Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a chadarnhaodd pob un ohonynt fod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Roedd sgrin wydr wedi'i gosod o flaen desg y dderbynfa, a oedd wedi'i lleoli yn yr ardal aros fawr. Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo eu bod yn gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed.

Roedd pedwar hebryngwr hyfforddedig yn y practis, ac roedd eraill yn aros i gael yr hyfforddiant hwn. Ni welsom unrhyw bosteri yn hysbysebu'r gwasanaeth hebryngwr, felly mae angen gosod hysbysiadau gwell o hawl cleifion i ofyn am y gwasanaeth hwn yn well.

**Dylai'r practis arddangos hysbysiadau mewn perthynas â'r gwasanaeth hebryngwr. Dylai'r rhain gael eu harddangos ym mhob ardal i gleifion, gan gynnwys yr ardaloedd trin clinigol ac ar y wefan.**

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac mewn modd amserol. Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn, drwy system ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Roedd apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu'n briodol dros y ffôn gan staff y dderbynfa, gan ymgynghori â chlinigydd pan fo angen. Darperir ar gyfer plant y

mae angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnynt pan fo angen. Ar ôl eu brysbennu, caiff cleifion eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol i reoli eu hanghenion. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio gwasanaethau yn y clwstwr lleol o feddygfeydd, fel fferylllydd, cwmselydd iechyd meddwl a ffisiotherapydd.

Er bod proses glir wedi'i disgrifio ar gyfer llywio gofal, nid oedd ar gael mewn fformat ysgrifenedig, felly dylid datblygu proses ysgrifenedig a'i rhoi ar waith er mwyn cefnogi'r staff a sicrhau eu bod yn gweithio mewn modd cyson.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod proses ysgrifenedig ar gyfer llywio gofal yn cael ei rhoi ar waith.**

Roedd prosesau ar waith i gefnogi cleifion a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl. Lle y bo'n briodol, caiff cleifion eu hatgyfeirio at y tîm argyfwng iechyd meddwl i gael cymorth argyfwng brys. Roedd cymorth a phrosesau cyfeirio amgen hefyd ar gael i gleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt, heblaw ymgynghoriadau wyneb yn wyneb estynedig.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno:

- eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan fydd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys
- eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis
- eu bod yn gallu cysylltu â'r practis pan fo angen, dros y ffôn, neu drwy'r system trefnu apwyntiadau ar-lein
- bod eu hapwyntiad ar amser.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Dywedwyd wrthym fod dolen sain ar gael, yn y dderbynfa ac yn yr ystafelloedd clinigol.

Fel arfer, rhoddir gwybod i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan, taflenni gwybodaeth yn y practis a thrwy wybodaeth a diweddariadau a rennir drwy wasanaeth negeseuon testun. Os yw'n hysbys nad oes gan gleifion fynediad digidol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion a byddai'r practis yn cysylltu â nhw dros y ffôn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn y practis. Fodd bynnag, roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r practis pe bai angen. Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog.

Roedd prosesau ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth gan wasanaethau gofal eilaidd a gweithredu yn ei chylch. Caiff llythyrau a dogfennau eu cyfeirio at yr ymarferydd gofal iechyd cywir er mwyn gweithredu yn eu cylch yn ôl yr angen.

Roedd y practis yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo'n fewnol i'r bobl briodol, ar lafar yn bennaf, ond wedi'u hategu gan systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r practis, gan ofyn am dderbynebau darllen.

### **Hawliau a chydaddoldeb**

Roedd mynediad da i'r practis ac roedd maes parcio am ddim dynodedig ar gael yn ogystal â lleoedd parcio ar y stryd. Gwnaethom nodi bod yr holl ardaloedd i gleifion, gan gynnwys ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod yr adeilad yn hygyrch iawn.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

Roedd hawliau cleifion trawsryweddol hefyd yn cael eu parchu, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu defnyddio o ddechrau'r cyfnod trawsnewid.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys o fewn ystafelloedd clinigol. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith ond mae angen ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth i Gymru, lle y bo'n gymwys. Dylai'r cynllun hefyd fod yn benodol ac yn berthnasol i'r ddwy feddygfa cangen. Rydym yn argymhell y dylai'r cynllun parhad busnes fod ar gael i bob aelod o'r staff yn y ddwy feddygfa er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a manylion cyswllt pe bai argyfwng sy'n effeithio ar y busnes.

**Dylid diweddarau'r cynllun parhad busnes i adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth i Gymru. Dylai'r cynllun hefyd fod yn benodol ac yn berthnasol i'r ddwy feddygfa cangen, a dylid ei rannu â phob aelod o'r staff.**

Dangosodd y practis drefniadau cydweithio da fel clwstwr i sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Gwelsom fod rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu hanfon at y practis yn rheolaidd ac yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd. Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn.

Roedd yr ystafell stoc yn anniben a gwelsom eitemau yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio, a oedd yn peri risg i ddiogelwch cleifion. Roedd hyn yn cynnwys menig, chwistrellau a masgiau. Rhaid i'r eitemau hyn gael eu symud i'w hatal rhag cael eu defnyddio wrth roi gofal i gleifion.

**Rhaid i'r practis adolygu cynnwys yr ystafell stoc a symud pob darn o gyfarpar/cyfarpar diogelu personol y mae ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio oddi yno.**

Gwnaethom drafod y camau a gymerir pan ofynnir am ymweliadau â chartrefi a gwnaethom nodi bod y staff yn brysbennu'r holl ymweliadau cyn eu cynnal. Roedd asesiad risg ar waith ar gyfer ymweliadau â chartrefi.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd arweinydd atal a rheoli heintiau wedi'i benodi yn y practis ac roedd y staff yn ymwybodol o hyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chynnal safonau atal a rheoli heintiau. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau, ond ni welsom dystiolaeth i gadarnhau hyn.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chofnodi i sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau.**

Roedd polisi feirysau a gludir yn y gwaed cyfredol ar waith, yn ogystal â phroses i reoli unrhyw anafiadau a achosir gan nodwyddau. Er mwyn cefnogi'r staff ymhellach, gwnaethom argymhell y dylai'r practis arddangos poster am anafiadau a achosir gan nodwyddau yn yr ardaloedd trin. Roedd polisiau ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau ac anafiadau a achosir gan nodwyddau neu offer miniog.

**Dylai'r practis ystyried arddangos poster am reoli anafiadau a achosir gan nodwyddau yn yr ystafelloedd trin er mwyn helpu'r staff yn dilyn unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog.**

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ac roedd polisi ar waith i ategu hyn. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r polisiau ar gyfer gwastraff, atal a rheoli nodwyddau ac anafiadau a achosir gan offer miniog er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyflawn, a'u bod yn cyfeirio at ganllawiau a deddfwriaeth i Gymru lle y bo'n briodol. At hynny, dylid hefyd sicrhau bod y polisiau yn cyfeirio at feddygfa benodol os oes unrhyw fanylion yn wahanol.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisiau ar gyfer rheoli gwastraff, atal a rheoli heintiau ac anafiadau a achosir gan offer miniog yn cael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys safonau a chanllawiau i Gymru. Lle y bo'n gymwys, rhaid i'r wybodaeth ym mhob polisi fod yn benodol i bob meddygfa.**

Roedd cofrestr ar waith yn y practis ar gyfer imiwnedd staff i hepatitis B. Gwelsom fod y gofrestr yn gyfredol ar wahân i ddau aelod o'r staff, a bod y practis yn aros iddynt gyflwyno eu canlyniadau.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chadw o imiwnedd pob aelod o'r staff clinigol i hepatitis B. Rhaid cwblhau asesiad risg ar gyfer pob aelod o'r staff nad yw ei imiwnedd wedi'i gadarnhau.**



Roedd trefniadau addas ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod arwyddion ger y fynedfa yn esbonio beth i'w wneud pe bai ganddynt afiechyd heintus.

Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gynnal arferion atal a rheoli heintiau da, ac roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael yn yr ardaloedd clinigol. Roedd y cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod hylif diheintio dwylo ar gael a bod y staff gofal iechyd yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl cael eu trin.

Dywedodd y cleifion a nododd eu bod wedi cael triniaeth fewnwithiol yn y practis fod y staff wedi defnyddio cyfarpar diogelu personol yn ystod y driniaeth, bod weips gwrthfacterol wedi cael eu defnyddio i lanhau'r croen cyn y driniaeth, a bod unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd mewn pecyn unigol neu wedi'i ddiheintio.

Roedd amserlenni glanhau priodol ar waith. Fodd bynnag, dylid diweddarau'r amserlen lanhau i gynnwys y sgriniau urddas a chadair olwyn y practis er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r amserlen lanhau i gynnwys diheintio'r sgriniau urddas a chadair olwyn y practis.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi'n ddiogel, ond roedd angen gwella rhai agweddau ar y prosesau hynny. Gwelsom fod presgripsiynau'n cael eu cadw'n ddiogel, ond nid oedd unrhyw gofnod yn cael ei gadw o ran ble a phryd roeddent yn cael eu dosbarthu i ystafelloedd clinigol neu'r feddygfa gangen arall.

Roedd padiau presgripsiwn â llaw yn cael eu cadw'n ddiogel a dim ond yr uwch-bartner a'r meddyg teulu cyflogedig oedd yn eu defnyddio. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw badiu presgripsiwn heb eu defnyddio yn cael eu dychwelyd at y bwrdd iechyd i'w gwaredu'n briodol a'u hatal rhag cael eu defnyddio heb awdurdod. Yn yr achos hwn, gwnaethom argymhell y dylid cadw cofnod o'r padiau a ddychwelir at y bwrdd iechyd i'w hatal rhag cael eu defnyddio'n anghywir neu heb awdurdod, pe bai unrhyw glinigydd wedi gadael y practis.

Er bod polisi ar waith ar gyfer storio presgripsiynau a'u cadw'n ddiogel, a oedd yn cyfeirio at gofnod ar gyfer storio a dosbarthu presgripsiynau, nid oedd y polisi hwn yn cael ei ddilyn.

**Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r polisi ar gyfer storio presgripsiynau a'u cadw'n ddiogel. At hynny, dylid cadw cofnod ar gyfer olrhain padiau presgripsiwn, ac wrth ddychwelyd padiau presgripsiwn heb eu defnyddio i'r bwrdd iechyd.**

Roedd polisi cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau a brechlynnau y mae angen eu cadw mewn oergell, ac roedd oergelloedd clinigol yn cael eu defnyddio i'w storio'n briodol. Roedd gwiriadau dyddiol o dymheredd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Roedd y staff nyrsio yn ymwybodol o'r ystodau gofynnol o ran y tymheredd uchaf a'r tymheredd isaf a beth i'w wneud pe bai'r gadwyn oer yn torri.

Roedd y cyfarpar brys a welsom yn briodol ac roedd y staff yn cwblhau gwiriadau rheolaidd i gadarnhau hyn. Fodd bynnag, nid oedd y broses yn ddigon cadarn i sicrhau bod dyddiadau defnyddio eitemau yn dal i fod yn gyfredol. Er bod dyddiadau defnyddio y rhan fwyaf o'r eitemau yn gyfredol, roedd angen masgiau wyneb newydd. Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael ac wedi'i wefru'n llawn, a gwnaethom awgrymu y dylai'r staff ystyried cadw batri wrth gefn. Wrth edrych ar y cyffuriau brys, gwelsom fod rhai eitemau ar goll. Codwyd hyn yn ystod yr arolygiad ac archebwyd yr eitemau a oedd ar goll. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Gwelsom fod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio ar wahân, er bod hynny yn yr un ystafell. Dylid storio'r cyfarpar a'r cyffuriau gyda'i gilydd er mwyn lleihau'r risg o oedi wrth gael gafael arnynt mewn argyfwng, fel argyfwng cardiaidd.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cadw gyda'i gilydd, a hynny yn rhywle lle y gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Rhaid rhoi gwybod i bob aelod o'r staff am eu lleoliad newydd.**

Gwelsom fod silindrau ocsigen o fewn eu dyddiad defnyddio a bod y lefelau stoc yn briodol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol yn gwybod sut i ddefnyddio'r ocsigen ac yn ymwybodol o'r trefniadau a oedd ar waith ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau.

Roedd Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion cyfredol ar waith. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r cyfarwyddiadau hyn i ddileu unrhyw hen wybodaeth y gwnaethom ei nodi, er mwyn sicrhau bod y nyrsys yn dilyn y cyfarwyddiadau mwyaf cyfredol. At hynny, gwelsom nad oedd unrhyw Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion ar waith ar gyfer brechlynnau teithio a brechlynnau rhag Hepatitis A. Rhaid i'r staff nyrsio sicrhau bod presgripsiwn yn cael ei gynhyrchu gan ragnodydd a'i ddogfennu yng nghofnod y claf.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y ffolder Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yn cael ei adolygu, bod unrhyw hen gyfarwyddiadau yn cael eu dileu a'i fod ond yn cynnwys gwybodaeth gyfredol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion ar waith ar gyfer brechlynnau teithio, gan gynnwys brechlynnau rhag Hepatitis A. Hyd nes y caiff hyn ei wneud, rhaid i'r nyrsys sicrhau bod presgripsiwn yn cael ei gynhyrchu gan ragnodydd a'i ddogfennu yng nghofnod y claf.

Ni chaiff unrhyw gyffuriau a reolir eu cadw yn y practis.

### **Diogelu plant ac oedolion**

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu a oedd ar waith a oedd yn cynnwys y polisi ar gyfer diogelu oedolion a phlant. Roedd y polisi yn cyfeirio at ganllawiau a deddfwriaeth i Loegr ac mae angen iddo gael ei ddiweddarau i adlewyrchu gweithdrefnau cenedlaethol Cymru. Roedd dryswch ymysg y staff hefyd ynglŷn â phwy oedd arweinydd diogelu'r practis, ac nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y polisi chwaith.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant, a rhaid i fanylion yr unigolyn hwn gael eu harddangos yn amlycach i'r staff.

Rhaid diweddarau'r polisi diogelu ar gyfer plant ac oedolion i gynnwys y canlynol:

- canllawiau a deddfwriaeth cyfredol i Gymru
- enw arweinydd diogelu'r practis
- manylion cyswllt/rhifau pwysig sefydliadau y gallai fod eu hangen ar y staff
- proses leol i hysbysu'r staff am eu cyfrifoldebau wrth wynebu unrhyw bryderon diogelu.

Yn ystod yr arolygiad, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar y lefel ofynnol. Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd unrhyw system ffurfiol ar waith i nodi unrhyw blant sy'n wynebu risg. Dywedwyd wrthym fod y meddyg arweiniol yn hyderus y gall nodi pob achos diogelu gweithredol gan mai practis bach ydyw. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai fod yn hawdd i glinigwyr

perthnasol nodi plant sy'n wynebu risg wrth edrych ar eu cofnodion, yn enwedig yn absenoldeb yr uwch-bartner.

**Rhaid i'r practis sicrhau ei bod yn hawdd nodi plant sy'n wynebu risg yn y system cofnodion cleifion.**

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac wedi'u gwirio'n briodol. Roedd contractau addas ar waith ar gyfer trwsio cyfarpar perthnasol neu gael cyfarpar newydd. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir.

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu hanfon at bob aelod o'r staff drwy e-bost a bod y wybodaeth yn cael ei storio ar y gyriant a rennir lle y gall pob aelod o'r staff ei gweld.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon foddhaol, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Roedd cofnodion y rhan fwyaf o'r cleifion yn cynnwys canlyniadau profion/ymchwiliadau; fodd bynnag, nid oedd tri chofnod yn cynnwys unrhyw naratif ynglŷn â'r rheswm dros wneud cais am ymchwiliadau yn y lle cyntaf.

Roedd cleifion yr oedd angen cymorth meddygol brys arnynt neu'r rhai hynny a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl yn cael gwybodaeth addas. Mae nyrs iechyd meddwl yn bresennol yn y practis unwaith yr wythnos, sy'n atgyfeirio cleifion at glinigydd perthnasol neu'n eu cyfeirio'n briodol ar ddarparwyr gwasanaethau eraill.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig deg claf, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn gyfredol.

Gwelsom nad oedd defnydd da yn cael ei wneud o godau darllen clinigol, sy'n ei gwneud hi'n anodd mynd ar drywydd cyflyrau. At hynny, gwelsom mai mater i gleifion oedd ffonio'r practis i fynd ar drywydd atgyfeiriadau brys ar gyfer achosion posibl o ganser. Mae hyn yn destun pryder oherwydd efallai nad yw rhai cleifion yn ymwybodol o'r broses hon neu mae'n bosibl y byddant yn anghofio bod angen iddynt wneud hyn. Felly, dylid rhoi proses ar waith i sicrhau bod cleifion yn gwybod pa

gamau y mae angen iddynt eu cymryd, os na fyddant wedi cael cadarnhad gan eu hysbyty lleol neu wedi cael dyddiad ar gyfer apwyntiad mewn modd amserol.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod pob claf a atgyfeirir at y bwrdd iechyd lleol ag achos posibl o ganser yn gwybod pa gamau y dylai eu cymryd, os yw'n berthnasol, wrth aros am ohebiaeth ynglŷn ag apwyntiad.**

Roedd y system cofnodion cleifion a ddefnyddiwyd yn ei gwneud hi'n anodd cysylltu meddyginiaeth â diagnosis. At hynny, roedd yn anodd gweld y rhesymeg dros ddechrau meddyginiaeth neu roi'r gorau iddi. Dywedwyd wrthym y bwriedir rhoi system newydd ar waith, ond nad yw'r practis wedi cael dyddiad ar gyfer hyn.

Nid oedd dewis iaith y cleifion wedi'i nodi'n amlwg yn y nodiadau y gwnaethom edrych arnynt.

**Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:**

- **Bod gwelliant yn cael ei wneud o ran y defnydd o godau darllen clinigol**
- **Bod unrhyw feddyginiaeth sydd wedi'i dechrau a/neu y rhoddwyd y gorau iddi yn cael ei dogfennu yng nghofnodion y cleifion a bod y rhesymeg dros hynny yn cael ei chofnodi**
- **Bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Gwnaethom nodi bod gwasanaethau yn cael eu trefnu mewn ffordd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod y bobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Gall y practis atgyfeirio at ymwelwyr iechyd, ffisiotherapyddion, gwasanaethau iechyd meddwl, a thîm llesiant y clwstwr fel y bo'n briodol. Gall y cleifion hefyd gael gwasanaeth diabetes yn y feddygfa a gwasanaeth brechu tymhorol.

Mae ymwelwyr iechyd yn bresennol yn y practis bob wythnos er mwyn cynnal clinigau imiwneiddio plant. Dywedwyd wrthym fod gan y practis gydberthnasau gwaith da â'r tîm o ymwelwyr iechyd a bod unrhyw bryderon diogelu yn cael eu rhannu'n briodol ac mewn modd amserol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd proses glir ar waith yn y practis ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, fel newidiadau i bolisiau neu weithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn ar y gyriant a rennir a byddai pob aelod o'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau ar lafar neu drwy grŵp WhatsApp y practis. Roedd y dull rheoli dogfennau ar y polisiau a welsom yn cynnwys awdur, dyddiad cyhoeddi a dyddiad adolygu. Nid oedd dull rheoli fersiwn ar bob un o'r polisiau a gweithdrefnau a welsom. At hynny, gwelsom fod angen diweddarau llawer o'r polisiau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn benodol i'r practis ac yn seiliedig ar deddfwriaeth a chanllawiau i Gymru, lle y bo'n gymwys.

### Rhaid i'r practis sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn:

- yn cynnwys dull rheoli fersiwn
- yn benodol i'r practis a, lle y bo'n gymwys, yn seiliedig ar ganllawiau a deddfwriaeth i Gymru.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal fel mater o drefn a gwelsom gofnodion y cyfarfod diwethaf. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd clinigol, sy'n awgrymu nad yw'r rhai sy'n absennol yn ymwybodol o wybodaeth allweddol, negeseuon na'r camau gweithredu sy'n ofynnol.

Rhaid i'r practis gymryd cofnodion ym mhob cyfarfod, a lle y bo'n berthnasol, dylai gadw cofnod o gamau gweithredu er mwyn sicrhau y gellir eu rhoi ar waith a'u monitro.

Roedd y practis yn gweithio'n agos gyda'r grŵp clwstwr ac yn cydweithio i arwain prosiectau, rhannu gwersi a ddysgwyd a chyd-reoli mentrau.

Gallai'r staff gael gafael ar raglenni llesiant drwy eu cofrestriadau proffesiynol neu drwy eu meddyg teulu eu hunain. Nid oedd rhaglen llesiant ar waith ar gyfer y staff yn y practis.

Dylai'r practis ystyried pa fentrau neu raglenni y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi llesiant y staff.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Er bod cymysgedd sgiliau priodol rhwng y timau i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol, nododd y practis anhawster i gadw staff. Mae pob aelod o'r staff yn gweithio ar draws dwy feddygfa gangen ac yn cyflenwi yn ystod unrhyw absenoldebau yn y naill feddygfa neu'r llall. Roedd rheolwr y practis, sydd hefyd yn nyrs gofrestrdig, hefyd yn cyflawni cyfrifoldebau nyrsio yn ychwanegol at ei rôl ei hun. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi'r rhaglen frechu rhag ffliw'r gaeaf a'r clinig diabetes. Mae'r anawsterau o ran recriwtio a chadw staff yn ei gwneud hi'n anodd i'r uwch-bartner a rheolwr y practis gymryd gwyliau blynyddol.

**Rhaid i'r practis adolygu ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu, asesu'r bylchau ac ystyried a oes unrhyw gyfleoedd i uwchsgilio staff er mwyn helpu i gyflawni cyfeiriad strategol y practis.**

Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer recriwtio a chynnal gwiriadau cyn cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon a darparu llythyr cynnig a chontract. Byddai cofrestriad gweithiwr gofal iechyd proffesiynol â'i gorff rheoleiddio yn cael ei gadarnhau hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Roedd proses sefydlu ar gael i aelodau newydd o'r staff. Roedd polisi recriwtio ar waith ond mae angen ei ddiweddarau i gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi recriwtio i adlewyrchu'r gofyniad am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**

Gwelsom nad oedd rhai agweddau ar wiriadau cyn cyflogi wedi'u cwblhau eto, ac roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Roedd rhai aelodau o'r staff yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o agweddau ar hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod

enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion, fel y nodwyd eisoes. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom argymhell y dylid datblygu matrices hyfforddiant a'i roi ar waith. Bydd hyn yn galluogi'r practis i gofnodi hyfforddiant pob aelod o'r staff, er mwyn sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol a sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol yn unol â'u rôl.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'w rôl ac yn darparu tystiolaeth i AGIC pan fydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.**

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod sesiynau goruchwyllo clinigol ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal. Mae sesiynau goruchwyllo clinigol yn un o'r gofynion a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac maent yn rhan hanfodol o ymarfer proffesiynol nyrsys. At hynny, mae arfarniadau blynyddol yn orfodol ar gyfer meddygon teulu yn y DU, ac ar gyfer nyrsys fel rhan o'u proses ailddilysu.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwyllo clinigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff clinigol, a bod tystiolaeth yn cael ei chofnodi.**

Rhoddyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i godi pryderon pe byddai angen iddynt wneud hynny, a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis. Fodd bynnag, mae angen i'r polisi hwn gael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth i Gymru a chynnwys manylion cyswllt AGIC i'r rheini sy'n dymuno codi pryder chwythu'r chwiban.

**Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth i Gymru a sicrhau bod y staff yn ymwybodol o fanylion cyswllt cywir AGIC.**

Dim ond un aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur, a nododd yr unigolyn hwn ei fod yn teimlo ei fod yn cael cyfleoedd teg a chyfartal yn y gweithle. Roedd hefyd yn teimlo bod ei weithle yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac nad oedd wedi wynebu gwahaniaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd systemau TGCh priodol ar gael i'r staff i'w helpu i ddarparu gofal a chymorth i'r cleifion. Roedd yr aelod o'r staff a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis, bod digon o staff i'w alluogi i wneud ei waith yn iawn, a'i fod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes ar ei amser yn y gwaith. Roedd hefyd yn teimlo bod yr holl ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar perthnasol ar gael i'w alluogi i wneud ei waith.

## **Diwylliant**



## **Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

O blith y 10 claf a ymatebodd i'n harolwg, cadarnhaodd chwech fod y practis wedi gofyn iddynt am eu profiad o'r gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaeth ac yn cytuno eu bod wedi cael gwasanaeth 'da iawn'.

Roedd gweithdrefn gwyno a pholisi cwynion ar waith yn y practis; fodd bynnag, nid oeddent yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu yn glir yn y polisi cwyno a dogfennau'r weithdrefn. Caiff cwynion/pryderon eu monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau, a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff. Gwelsom fod yr amserlenni a oedd wedi'u rhestru yn y polisi cwynion a'r daflen am y broses gwyno yn wahanol, a bod angen i'r rhain gael eu cywiro.

**Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi cwynion a'i weithdrefnau drwy wneud y canlynol:**

- **Eu cysoni â phroses Gweithio i Wella y GIG**
- **Sicrhau bod yr amserlenni a restrir yn yr holl wybodaeth yn gyson**
- **Arddangos manylion Gweithio i Wella mewn ardal lle y gall y cleifion eu gweld yn hawdd.**

Roedd arolwg o Brofiad Cleifion y GIG wedi cael ei gynnal yn unol â Chontract Cymru ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Dywedwyd wrthym fod y canlyniadau yn gadarnhaol ar y cyfan, ond nid oedd unrhyw adborth ar gael i'r cleifion ar y wefan nac yn y practis. At hynny, dylid rhoi system adborth gan gleifion ar waith yn lleol fel bod cleifion yn gallu rhannu eu hadborth ar y gwasanaeth.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod arolwg o Brofiad Cleifion y GIG ar gael i'r bobl sy'n defnyddio'r practis. At hynny, dylid rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallant rannu adborth ar eu profiad yn barhaus, er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad cleifion.**

Teimlai'r staff y gallent siarad â rheolwr y practis am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt a'u bod yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt â rheolwr y practis i'w hystyried.

Gwnaethom siarad â'r staff am y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith, ond nid oedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau

hyfforddiant ar hyn. Roedd yr aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod yn deall ei rôl mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi Dyletswydd Gonestrwydd i adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau i Gymru. At hynny, rhaid i'r practis ystyried gallu'r staff i gael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn.

Roedd proses y practis ar gyfer trin data cleifion ar gael ar y wefan.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

### Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd drwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal. Roedd tystiolaeth hefyd o raglen archwilio clinigol a mewnlol er mwyn monitro ansawdd.

Roedd y practis yn dysgu gwersi o adolygiadau mewnlol ac allanol, gan gynnwys digwyddiadau a chwynion. Dywedwyd wrthym fod dysgu'n cael ei rannu ym mhob rhan o'r practis a thrwy gyfarfodydd y grŵp clwstwr er mwyn gwneud gwelliannau.

## Dull system gyfan

### Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Darparodd y practis enghreifftiau o'r ffordd y mae'n cael effaith ar rannau eraill o'r system gofal iechyd fel un o randdeiliaid gofal cleifion. Roedd hyn yn cynnwys dilyn llwybrau clinigol y bwrdd iechyd. Mae'r practis hefyd yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â phartneriaid y system mewn cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol amrywiol, fel cyfarfodydd clwstwr a chyfarfodydd rheolwyr practisau.

Roedd cydberthnasau cydweithredol da ar waith â phartneriaid allanol ac o fewn y clwstwr. Roedd y practis yn gweithio'n agos gyda'r clwstwr lleol o feddygfeydd er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer yr ardal ehangach.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Meddygfa Cwmaman

**Dyddiad yr arolygiad:** 6 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Yn ystod yr arolwg, canfu AGIC nad oedd gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Un o'r rhesymau dros hyn oedd pa mor hir roedd rhai aelodau o'r staff wedi bod yn gweithio yn y practis. Er mwyn sicrhau llesiant a diogelwch cleifion, dylid cwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a dylid rhoi systemau ar waith i'r staff gadarnhau na fu unrhyw newidiadau i statws eu gwiriad.	<p>Rhaid rhoi system gadarn ar waith mewn perthynas â chwblhau a monitro gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid i'r gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff a'u cadw ar ffeil</li> <li>Rhaid i'r staff gadarnhau bob blwyddyn fod y wybodaeth ar eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dal i fod</li> </ul>	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd pob aelod o'r staff sydd wedi gweithio ym Meddygfa Cwmaman ers dros ddeng mlynedd yn cwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd</li> <li>Bydd staff sydd wedi cwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn llofnodi datganiad</li> </ul>	Sharon Rao	30/11/2024

		yn gywir ac na fu unrhyw newidiadau ers i'r gwiriad hwn gael ei gynnal.		blynyddol yn nodi na fu unrhyw newidiadau ers i'r gwiriad gwreiddiol gael ei gynnal.		
2.	Yn ystod yr arolygiad, ni welsom unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar y lefelau gofynnol. At hynny, nid oedd y polisi diogelu yn nodi pwy oedd yr arweinydd diogelu dynodedig. Mae angen i'r polisi adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth cyfredol i Gymru a chynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â phob aelod o'r staff.	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol perthnasol ar ddiogelu</li> <li>Rhoi system gadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn barhaus</li> <li>Adolygu a diweddarau'r polisiau a'r prosesau diogelu a'u rhannu â phob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn gwybod sut i godi pryder yn ymwneud â diogelu.</li> </ul>	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnwyd i'r meddyg teulu ddarparu tystysgrifau o hyfforddiant lefel 3 ar ddiogelu oedolion a phlant</li> <li>Bydd copïau o eDdysgu pob aelod o'r staff ar ddiogelu oedolion a phlant yn cael eu cadw mewn ffolder ar Yriant G yn hytrach nag yng nghofnodion hyfforddiant y staff</li> <li>Bydd posteri yn dangos pwy yw'r Arweinydd Diogelu yn cael eu harddangos yn y feddygfa</li> <li>Bydd dolen electronig i'r ffurflenni</li> </ul>	Sharon Rao	30/11/2024

				<p>perthnasol ar gyfer oedolion a phlant yn cael ei chynnwys ar y poster diogelu.</p> <p>Trafod â'r staff a sicrhau eu bod yn llofnodi i ddangos eu bod yn cydymffurfio â pholisi'r feddygfa ar ddiogelu oedolion a phlant</p>		
3.	<p>Yn ystod yr arolygiad, canfu AGIC fod rhai cyffuriau brys ar goll. Codwyd hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd y cyffuriau dan sylw eu harchebu. Mae angen cadarnhau bod yr holl gyffuriau a chyfarpar brys a argymhellir ac a restrir gan Gyngor Adfywio'r DU ar gael yn y practis.</p>	<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod yr holl gyffuriau a'r cyfarpar brys ar gael yn y practis i'w defnyddio mewn argyfwng</li> </ul>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi egluro'r canllawiau y dylid eu dilyn mewn perthynas â chyfarpar a chyffuriau brys, sef canllawiau Cyngor Adfywio'r DU (8/11/2024). Yn ystod yr ymweliad ar 06/11/2024, gwnaed cais am stoc yn unol â'r canllawiau i Loegr yn unol ag argymhelliad yr arolygydd a chafodd archeb ei gosod. Fodd</li> </ul>	<p>Sharon Rao</p>	<p>Ar unwaith 8/11/24 Rydym yn aros am gel glwcos a cefotaxime. Oherwydd y gadwyn gyflenwi ac argaeledd, disgwylir iddynt gyrraedd erbyn 11/22/24</p>

bynag, nodwyd bod y cyffuriau a archebwyd yn ychwanegol at ganllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Yr unig newid roedd angen ei wneud oedd archebu hylif dextrose yn lle tabledi. Roedd adrenalin eisoes ar gael.

- Bydd rhestr o gyffuriau brys a chyfarpar safonol yn cael ei llunio i'w defnyddio mewn argyfwng
- Bydd rhestr o gyffuriau a chyfarpar brys yn cael ei llunio a bydd gwiriad wythnosol o'r cyffuriau a'r diffibriliwr yn cael ei gynnal
- Bydd y staff yn cadarnhau eto a oes unrhyw gyfarpar wedi'i ddefnyddio mewn argyfwng ac yn



			archebu rhagor o stoc lle bo angen		
--	--	--	---------------------------------------	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Sharon Rao**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 08/11/2024**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Cwmaman

Dyddiad yr arolygiad: 6 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni welsom unrhyw bosteri yn hysbysebu'r gwasanaeth hebryngwr, felly mae angen gosod hysbysiadau gwell o hawl cleifion i ofyn am y gwasanaeth hwn yn well.	Dylai'r practis arddangos hysbysiadau mewn perthynas â'r gwasanaeth hebryngwr. Dylai'r rhain gael eu harddangos ym mhob ardal i gleifion, gan gynnwys yr ardaloedd trin clinigol ac ar y wefan.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Dim ond yn yr ystafell aros yn y brif feddygfa a'r feddygfa gangen yr oedd y poster yn cael ei arddangos. Mae posteri wedi cael eu gosod ym mhob ystafell glinigol ac ystafelloedd y meddygon a'r nyrsys, ac mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan y feddygfa	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau

2.	Er i broses glir gael ei disgrifio ar gyfer llywio gofal, nid oedd hon wedi'i dogfennu. Roedd angen proses llywio gofal wedi'i dogfennu'n glir i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod eu dull gweithredu yn gyson.	Rhaid i'r practis sicrhau bod proses ysgrifenedig ar gyfer llywio gofal yn cael ei rhoi ar waith.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae proses ysgrifenedig ar gyfer Llywio Gofal ar gael i'r staff Mae'r staff yn gwybod sut i ddarllen Codau Read - cyfeirir at y broses llywio gofal a'r tîm rheoli data meistr priodol.	Sharon Rao	Sesiynau hyfforddiant gloywi parhaus Apwyntiadau archwilio i sicrhau proses llywio gofal briodol.
3.	Roedd proses parhad busnes ar waith. Gwelsom fod angen adolygu a diweddarau'r cynllun parhad busnes i adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth i Gymru. Dylai'r cynllun hefyd fod yn benodol ac yn berthnasol i'r ddwy feddygfa cangen, a dylid ei rannu â phob aelod o'r staff.	Dylid diweddarau'r cynllun parhad busnes i adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth i Gymru. Dylai'r cynllun hefyd fod yn benodol ac yn berthnasol i'r ddwy feddygfa cangen, a dylid ei rannu â phob aelod o'r staff.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae'r Cynllun Parhad Busnes wedi'i ddiweddarau Mae copïau ar gael yn y ddwy feddygfa	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau

	o'r staff yn y ddwy feddygfa er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a manylion cyswllt y gwasanaethau angenrheidiol pe bai argyfwng neu sefyllfa yn codi.					
4.	Gwelsom fod yr ystafell stoc yn anniben ac yn cynnwys eitemau o gyfarpar yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio, gan gynnwys menig, chwistrellau a masgiau wyneb.	Rhaid i'r practis adolygu cynnwys yr ystafell stoc a symud pob darn o gyfarpar/cyfarpar diogelu personol y mae ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio oddi yno.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Mae'r holl eitemau wedi cael eu dinistrio	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
5.	Ni welsom dystysgrifau hyfforddiant ar ddiogelu ar gyfer yr un aelod o'r staff	Rhaid i'r practis sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chofnodi i sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Y Gweithlu	Mae taenlen o hyfforddiant staff a dyddiadau diweddariadau ar gael. Mae'r posterï yn weladwy ac yn cael	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau

				eu harddangos ar wefan y practis		
6.	Nid oedd unrhyw bosteri am anafiadau a achosir gan nodwyddau i'w gweld yn yr ardaloedd trin er mwyn dangos i'r staff pa gamau i'w cymryd pe bai rhywun yn cael anaf a achosir gan offer miniog.	Dylai'r practis ystyried arddangos poster am reoli anafiadau a achosir gan nodwyddau yn yr ystafelloedd trin er mwyn helpu'r staff yn dilyn unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae posteri wedi'u harddangos ym mhob ystafell glinigol ac ystafelloedd y meddygon a'r nyrsys	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
7.	Mae angen diweddarau'r polisiâu ar wastraff, atal a rheoli heintiau ac offer miniog er mwyn cyfeirio at ganllawiau a deddfwriaeth i Gymru. Dylid sicrhau bod y polisiâu yn cyfeirio at feddygfa benodol os oes unrhyw fanylion yn wahanol.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisiâu ar gyfer rheoli gwastraff, atal a rheoli heintiau ac anafiadau a achosir gan offer miniog yn cael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys safonau a chanllawiau i Gymru. Lle y bo'n gymwys, rhaid i'r wybodaeth ym mhob polisi fod yn benodol i bob meddygfa.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae'r posteri a'r polisiâu wedi'u diweddarau	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau

8.	Roedd cofrestr ar waith yn y practis ar gyfer imiwnedd staff i hepatitis B. Gwelsom fod y gofrestr yn gyfredol ar wahân i ddau aelod o'r staff, a bod y practis yn aros iddynt gyflwyno eu canlyniadau.	Rhaid i'r practis sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chadw o imiwnedd pob aelod o'r staff clinigol i hepatitis B. Rhaid cwblhau asesiad risg ar gyfer pob aelod o'r staff nad yw ei imiwnedd wedi'i gadarnhau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel; Y Gweithlu; Gwybodaeth	Mae cofnodion pob aelod o staff clinigol ar gael	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
9.	Rhaid diweddarau'r amserlen lanhau i gynnwys y sgriniau urddas a chadair olwyn y practis.	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r amserlen lanhau i gynnwys diheintio'r sgriniau urddas a chadair olwyn y practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae glanhau'r gadair olwyn a'r llenni cludadwy wedi'i ychwanegu at yr amserlen lanhau.	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
10.	Gwelsom fod presgripsiynau yn cael eu cadw mewn ardal storio dan glo, ond nid oedd unrhyw gofnod cyfrifiadurol ar gyfer y presgripsiynau. Felly, nid oedd cofnod o ran ble a phryd roeddent yn cael eu dosbarthu i	Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r polisi ar gyfer storio presgripsiynau a'u cadw'n ddiogel. At hynny, dylid cadw cofnod ar gyfer olrhain padiau presgripsiwn, ac wrth ddychwelyd padiau presgripsiwn heb eu defnyddio i'r bwrdd iechyd.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae cofnod ar gael ar gyfer pob presgripsiwn cyfrifiadurol a'r ystafell y cafodd ei ddyrannu iddi, ac mae cofnodlyfr yn cael ei gadw ar gyfer presgripsiynau a ysgrifennwyd â llaw, a oedd ar waith.	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau

	ystafelloedd neu ganghennau gwahanol.					
11.	Gwelsom fod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio ar wahân, er bod hynny yn yr un ystafell. Dylid storio'r cyfarpar a'r cyffuriau gyda'i gilydd er mwyn lleihau'r risg o oedi wrth gael gafael arnynt mewn argyfwng, fel argyfwng cardiaidd.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cadw gyda'i gilydd, a hynny yn rhywle lle y gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Rhaid rhoi gwybod i bob aelod o'r staff am eu lleoliad newydd.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Amserol	Mae'r cyffuriau'n cael eu storio uwchben y cyfarpar adfywio mewn cypyrddau a droriau ac mae'r holl eitemau wedi'u labelu ar flaen y drysau. Mae pob aelod o'r staff yn gwybod ble maent yn cael eu cadw, sydd hefyd yn rhan o'r broses sefydlu.	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
12.	Mae angen aildrefnu'r ffolder Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion er mwyn tynnu hen wybodaeth, er mwyn sicrhau bod y nyrsys yn dilyn y cyfarwyddiadau diweddaraf.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y ffolder Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yn cael ei adolygu, bod unrhyw hen gyfarwyddiadau yn cael eu dileu a'i fod ond yn cynnwys gwybodaeth gyfredol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Gwybodaeth	Caiff hen Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion eu cadw mewn ffolder ar wahân, at ddibenion cyfeirio yn unig. Dim ond y cyfarwyddiadau diweddaraf sydd yn y ffolder	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau

13.	Nid oedd unrhyw Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion ar waith ar gyfer brechlynnau teithio rhag Hepatitis A. Mae angen i'r nyrsys sicrhau bod presgripsiwn yn cael ei gynhyrchu gan ragnodydd a'i ddogfennu yng nghofnod y claf.	Rhaid i'r practis sicrhau bod Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion ar waith ar gyfer brechlynnau teithio, gan gynnwys brechlynnau rhag Hepatitis A. Hyd nes y caiff hyn ei wneud, rhaid i'r nyrsys sicrhau bod presgripsiwn yn cael ei gynhyrchu gan ragnodydd a'i ddogfennu yng nghofnod y claf.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Y Gweithlu; Gwybodaeth	Mae Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion ar waith ar gyfer brechlynnau rhag Hepatitis A. Dim ond cynhyrchu presgripsiwn ar gyfer Hepatitis A y mae'r feddygfa yn ei wneud, gan nad yw'n cadw stoc.	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
14.	Roedd dryswch ymysg y staff ynglŷn â phwy oedd arweinydd diogelu'r practis, ac nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y polisi chwaith.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant, a rhaid i fanylion yr unigolyn hwn gael eu harddangos yn amlycach i'r staff.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae poster wedi'i arddangos sy'n nodi enw'r Arweinydd Diogelu, manylion cyswllt a dolen electronig	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
15.	Roedd y polisi yn cyfeirio at ganllawiau a deddfwriaeth i Loegr ac mae angen iddo gael ei ddiweddarau i	Rhaid diweddarau'r polisi diogelu ar gyfer plant ac oedolion i gynnwys y canlynol:	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae'r staff yn gwybod pwy yw'r Arweinydd Diogelu Mae manylion cyswllt ar gyfer rhifau pwysig	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau



	<p>adlewyrchu gweithdrefnau cenedlaethol Cymru.</p> <p>Roedd dryswch ymysg y staff ynglŷn â phwy oedd arweinydd diogelu'r practis, ac nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y polisi chwaith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• canllawiau a deddfwriaeth cyfredol i Gymru</li> <li>• enw arweinydd diogelu'r practis</li> <li>• manylion cyswllt/rhifau pwysig sefydliadau y gallai fod eu hangen ar y staff</li> <li>• proses leol i hysbysu'r staff am eu cyfrifoldebau wrth wynebu unrhyw bryderon diogelu.</li> </ul>		<p>a dolenni yn cael eu harddangos yn y feddygfa</p> <p>Mae polisi a gweithdrefn ar waith</p>		
16.	<p>Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd unrhyw system ffurfiol ar waith i nodi unrhyw blant sy'n wynebu risg. Dywedwyd wrthym fod y meddyg arweiniol yn hyderus y gall nodi pob achos diogelu gweithredol gan mai practis bach ydyw.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau ei bod yn hawdd nodi plant sy'n wynebu risg yn y system cofnodion cleifion.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth</p>	<p>Eisoes ar waith. Pan fydd y feddygfa yn ymwybodol bod plant ar y gofrestr amddiffyn plant, caiff Cod Read priodol ei nodi yng nghyfnodolyn y plentyn ac unrhyw frodyr a chwiorydd a all fod wedi'u cofrestru yn y feddygfa.</p>	<p>Sharon Rao</p>	<p>Ar waith</p>

<p>Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai fod yn hawdd i glinigwyr perthnasol nodi plant sy'n wynebu risg wrth edrych ar eu cofnodion. Yn benodol, yn absenoldeb yr uwch-bartner.</p>			<p>Pan fydd enwau plant yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant, caiff hyn ei ddogfennu. Caiff Cod Read ei nodi yng nghofnodolyn y rhieni hefyd fel bod cofnod bod y plant ar y gofrestr amddiffyn plant. O ran babanod heb eu geni, caiff Cod Read ei nodi yng nghofnodion y fam. Defnyddir Cod Read priodol ar gyfer plant mewn gofal maeth a rhieni maeth hefyd. Defnyddir Codau Read priodol ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu. Polisi a Gweithdrefn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal Cynhaliwyd chwiliad VISION ar 10/12/2024, sy'n</p>		
--	--	--	--	--	--

				dangos nifer y cleifion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd neu sydd wedi bod ar y Gofrestr yn flaenorol		
17.	Gwelsom mai mater i gleifion oedd ffonio'r practis i fynd ar drywydd atgyfeiriadau brys ar gyfer achosion posibl o ganser. Mae hyn yn destun pryder oherwydd efallai nad yw rhai cleifion yn ymwybodol o'r broses hon neu mae'n bosibl y byddant yn anghofio bod angen iddynt wneud hyn. Felly, dylid rhoi proses ar waith i sicrhau bod cleifion yn gwybod pa gamau y mae angen iddynt eu cymryd, os na fyddant wedi cael	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob claf a <b>atgyfeirir at y bwrdd iechyd lleol ag achos posibl o ganser yn gwybod pa gamau y dylai eu cymryd, os yw'n berthnasol, wrth aros am ohebiaeth ynglŷn ag apwyntiad.</b>	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel; Amserol; Gwybodaeth	Bydd cleifion yn cael taflen wybodaeth gan y meddyg sy'n eu hatgyfeirio yn nodi manylion cyswllt os na fyddant yn cael apwyntiad ar gyfer atgyfeiriad priodol	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau

	cadarnhad gan eu hysbyty lleol neu wedi cael dyddiad ar gyfer apwyntiad mewn modd amserol.					
18.	Canfyddiadau'r adolygiad o gofnodion cleifion.	<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod gwelliant yn cael ei wneud o ran y defnydd o godau darllen clinigol</li> <li>• Bod unrhyw feddyginiaeth sydd wedi'i dechrau a/neu y rhoddwyd y gorau iddi yn cael ei dogfennu yng nghofnodion y cleifion a bod y rhesymeg dros hynny yn cael ei chofnodi</li> <li>• Bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.</li> </ul>	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Gwybodaeth; Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Dywedir wrth y staff am bwysigrwydd defnyddio codau Read yn ystod ymgynoriadau. Dogfennir meddyginiaeth sydd wedi'i dechrau ac y rhoddwyd y gorau iddi. Caiff dewis iaith cleifion ei gofnodi os nad oes Cod Read eisoes ar waith	Sharon Rao	Parhaus

19.	<p>Nid oedd dull rheoli fersiwn ar bob un o'r polisiâu a gweithdrefnau a welsom.</p> <p>Roedd angen diweddarau llawer o bolisiâu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn benodol i'r practis ac yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a chanllawiau i Gymru, lle y bo'n gymwys.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cynnwys dull rheoli fersiwn</li> <li>• yn benodol i'r practis a, lle y bo'n gymwys, yn seiliedig ar ganllawiau a deddfwriaeth i Gymru.</li> </ul>	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Diweddarwyd yr holl bolisiâu a'r gweithdrefnau ym mis Tachwedd 2024	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
20.	Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd clinigol.	Rhaid i'r practis gymryd cofnodion ym mhob cyfarfod, a lle y bo'n berthnasol, dylai gadw cofnod o gamau gweithredu er mwyn sicrhau y gellir eu rhoi ar waith a'u monitro.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff cofnodlyfr ei gadw o gyfarfodydd clinigol a chyfarfodydd staff	Sharon Rao	Parhaus
21.	Nid oedd unrhyw raglen llesiant ar waith ar gyfer y staff	Dylai'r practis ystyried pa fentrau neu raglenni y gellir	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Y Gweithlu; Diwylliant	Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd, trafodir unrhyw	Sharon Rao	Parhaus

	sy'n gweithio yn y practis.	eu rhoi ar waith i gefnogi llesiant y staff.		bryderon neu broblemau iechyd â'r staff a rhoddir cymorth priodol		
22.	Nododd y practis anhawster wrth gadw staff. Mae pob aelod o'r staff yn gweithio ar draws dwy feddygfa gangen ac yn cyflenwi yn ystod absenoldebau. Roedd rheolwr y practis yn cyflawni cyfrifoldebau nyrsio yn ogystal â'i rôl fel rheolwr y practis. Roedd yr anawsterau o ran recriwtio a chadw staff yn ei gwneud hi'n anodd i'r uwch-bartner a rheolwr y practis gymryd gwyliau blynyddol.	Rhaid i'r practis adolygu ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu, asesu'r bylchau ac ystyried a oes unrhyw gyfleoedd i uwchsgilio staff er mwyn helpu i gyflawni cyfeiriad strategol y practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Y Gweithlu	Mae hysbyseb wedi'i chyhoeddi ar gyfer Nyrs Practis. Mae aelodau presennol o'r staff wrthi'n cael eu huwchsgilio o ran eu rolau a'u cymwyseddau	Sharon Rao	Parhaus
23.	Roedd polisi recriwtio ar waith ond mae angen ei ddiweddarau i gynnwys gwiriadau gan	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi recriwtio i gynnwys gwiriadau gan y	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Y Gweithlu	Mae gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer staff newydd ac	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau

	y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.		mae datganiad blynyddol wedi'i gyflwyno ar gyfer staff sydd wedi bod yn gweithio yn y practis am fwy na blwyddyn		
24.	Wrth edrych ar gofnodion hyfforddiant gorfodol y staff, gwelsom nifer o enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio ar gyfer staff clinigol a staff anghlinigol.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llawn â'r holl hyfforddiant gorfodol a darparu tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'i gwblhau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Arweinyddiaeth; Y Gweithlu	Cofnod eDdysgu o ofynion gorfodol a chlinigol yn dibynnu ar y rôl. Yn rhan o'r broses sefydlu	Sharon Rao	I'w adolygu'n fisol wrth i ddyddiadau hyfforddiant ddod i ben
25.	Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod sesiynau goruchwyllo clinigol ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal. Mae sesiynau goruchwyllo clinigol yn un o'r gofynion a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac maent yn rhan hanfodol o ymarfer	Rhaid i'r practis sicrhau bod arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwyllo clinigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff clinigol, a bod tystiolaeth yn cael ei chofnodi.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Arweinyddiaeth; Y Gweithlu	Arfarniad blynyddol meddygon drwy wefan arfarnu GIG Cymru ar gyfer meddygon teulu ( <a href="https://gp.mars.wales.org">https://gp.mars.wales.org</a> ) Arfarniad nyrsys practis yn unol â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gydag	Sharon Rao	Yn unol ag arfarniad drwy wefan MARS ar gyfer meddygon teulu Rhagfyr 2024

	proffesiynol nyrsys. At hynny, mae arfarniadau blynyddol yn orfodol ar gyfer meddygon teulu yn y DU, ac ar gyfer nyrsys fel rhan o'u proses ailddilysu.			ailddilysiad bob tair blynedd		
26.	Mae angen diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban.	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth i Gymru a sicrhau bod y staff yn ymwybodol o fanylion cyswllt cywir AGIC.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
27.	Mae angen diweddarau'r polisi cwynion a'r broses gwyno a'u cysoni â safonau/canllawiau i Gymru	Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi cwynion a'i weithdrefnau drwy wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eu cysoni â phroses Gweithio i Wella y GIG</li> <li>• Sicrhau bod yr amserlenni a restrir</li> </ul>	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Dysgu, gwella ac ymchwil	Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys ar wefan y feddygfa Mae poster wedi'u harddangos yn y feddygfa	Sharon Rao	wedi'i gwblhau



		<p>yn yr holl wybodaeth yn gyson</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arddangos manylion Gweithio i Wella mewn ardal lle y gall y cleifion eu gweld yn hawdd.</li> </ul>				
28.	Dylai'r practis ystyried rhoi ei system adborth gan gleifion ei hun ar waith fel bod cleifion yn gallu rhannu eu hadborth ar y gwasanaeth.	Rhaid i'r practis sicrhau bod arolwg o Brofiad Cleifion y GIG ar gael i'r bobl sy'n defnyddio'r practis. At hynny, dylid rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallant rannu adborth ar eu profiad yn barhaus, er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad cleifion.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Dysgu, gwella ac ymchwil; Dull systemau cyfan	Mae arolwg blynyddol wedi'i gwblhau a'i arddangos ar wefan y practis. Cafodd ei gynnal ar adegau gwahanol. Mae blwch awgrymiadau wedi'i osod yn y brif feddygfa a'r feddygfa gangen er mwyn i'r cleifion roi adborth.	Sharon Rao	Wedi'i gwblhau
29.	Mae angen i'r polisi Dyletswydd Gonestrwydd gyfeirio at y practis lleol a bod yn seiliedig ar ganllawiau i Gymru, lle y bo'n gymwys.	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi Dyletswydd Gonestrwydd i adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau i Gymru. At hynny, rhaid i'r practis ystyried gallu'r staff i gael	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Arweinyddiaeth; Y Gweithlu	Gofynnwyd i'r staff nad oeddent wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd i gwblhau'r hyfforddiant hwn, ac	Sharon Rao	31/01/2025

Ni welwyd tystiolaeth o hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ar gyfer yr un aelod o'r staff.	hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.		mae wedi'i ychwanegu at raglen sefydlu staff Mae polisi a gweithdrefn ar waith		
---	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Sharon Rao**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 08/01/2025**